# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 1 Tachwedd 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Ariannu Gofal Iechyd Sylfaenol

**C8 Nick Bourne:** A oes gan y Gweinidog gynlluniau i neilltuo mwy o adnoddau i ariannu gofal iechyd sylfaenol? (OAQ13542)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae'r gyllideb ddrafft yn ein galluogi i ddarparu ar gyfer ein cynnydd arfaethedig o 5.6 y cant yng ngwasanaethau cymdeithasol teuluoedd yn ogystal â chadw'r cynnydd arfaethedig yn yr arian i rai meysydd yng ngofal sylfaenol, megis recriwtio meddygon teulu ac arloesi; datblygu gwasanaethau y tu allan i oriau arferol, argymhellion y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a buddsoddi yn adeiladau gofal sylfaenol. Mae dros £5 miliwn o arian ychwanegol wedi'i neilltuo yn benodol i feysydd gofal sylfaenol yn nghylch cynllunio hwn y gyllideb.

### Gwella Hybu Iechyd yng Nghymru

**C9 John Griffiths:** Pa fesurau sydd yn yr arfaeth i wella ymhellach y modd yr hybir iechyd yng Nghymru? (OAQ13546)

**Jane Hutt:** Cymeradwyodd y Cynulliad y cynllun gweithredu tair-blynedd i hybu iechyd fis Tachwedd diwethaf, ac mae ar waith. Mae hybu iechyd yn cael ei ystyried fel rhan o gapasiti iechyd y cyhoedd yn yr arolygiad o iechyd y cyhoedd ac, o ran strategaeth, wrth baratoi ail 'Gwell Iechyd—Gwell Cymru' sydd yn yr arfaeth. Gwnaed sylw yn yr arolygiad o strwythurau'r NHS mai'r byrddau iechyd lleol ddylai fod yn gyfrifol am hybu iechyd.

*Tynnwyd Cwestiwn 10 (OAQ13539) yn ôl.*

### Mentrau Gwrth-Ysmygu

**C11 Janice Gregory:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd yn ddiweddar i hybu mentrau gwrth-ysmygu'r Cynulliad? (OAQ13544)

**Jane Hutt:** Cymeradwyais fesurau yn ddiweddar a fydd yn cryfhau ein mentrau gwrth-ysmygu gan gynnwys rhaglen hyfforddi i wasanaethau gwrth-ysmygu lleol ar weithio gydag ysmygwyr o leiafrifoedd ethnig, a grantiau i brosiectau peilot newydd i helpu ysmygwyr sydd yn eu harddegau i roi'r gorau. Ar 25 Hydref, cyflwynais gyfarfod o gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru yn canolbwyntio ar arfer da wrth atal gwerthu baco i blant.

### Annog Plant i Fwyta'n Iach

**C12 Gareth Jones:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i annog plant Cymru i fwyta'n iach? (OAQ13536)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn cynorthwyo datblygu bwyta'n iach yn yr ysgol a'r gymuned, drwy gyfrwng cynlluniau hybu iechyd mewn ysgolion, siopau ffrwythau mewn ysgolion, a mentrau bwyd cymunedol.

Mae Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru yn cydweithio â Phrifysgol Cymru, Bangor wrth arbrofi â rhaglen ymyrryd '*food dudes*' sy'n anelu at annog plant ysgol i fwyta rhagor o ffrwythau a llysiau.

Cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Reoliadau Addysg (Safonau Maeth Cinio Ysgol) (Cymru) 2001 ac mae'n rhaid iddynt gael eu rhoi ar waith mewn ysgolion erbyn 1 Medi 2001.

### Defnyddio Offer Un-Tro

**C13 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog grisialu'r sefyllfa o ran defnyddio offer un-tro mewn tonsilectomïau, ac i ba raddau y mae'r offer hynny ar gael? (OAQ13529)

**Jane Hutt: E**rbyn hyn, defnyddir offer llawdriniaethol un-tro ledled Cymru mewn tonsilectomïau ar ôl iddynt gael eu dosbarthu i'r ymddiriedolaethau ym mis Gorffennaf. Mae problemau ynghylch safon rhai o'r offer wedi'u nodi a'u datrys. Mae rhai ymddiriedolaethau yn Lloegr, ac un yng Nghymru, wedi sôn am achosion o waedu eilaidd. Rhoddwyd gwybod i'r Asiantaeth Dyfeisiau Meddygol a chyhoeddwyd rhybudd am y peryglon.

### Lwfansau Teithio i Nyrsys Cymuned ac Ymwelwyr Iechyd

**C14 Mick Bates:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i Gweinidog cyfatebol yn San Steffan ynghylch lwfansau teithio i nyrsys cymuned ac ymwelwyr iechyd? (OAQ13372)

**Jane Hutt:** Cynhelir pob trafodaeth ar lefel swyddogol. Mae lwfansau teithio yn cael eu pennu drwy fformwla wedi'i chytuno sy'n cael ei negodi gan Gyngor Cyffredinol Whitley, sy'n cynnwys cynrychiolwyr y rheolwyr a'r gweithwyr.

### Manteision Cyfrifiaduron

**C15 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog sylwadau ar fanteision caniatáu i nyrsys cymuned ac ymwelwyr iechyd gael defnyddio cyfrifiaduron wrth eu gwaith bob dydd? (OAQ13373)

**Jane Hutt:** Bydd nyrsys cymuned ac ymwelwyr iechyd a leolir mewn practisiau meddygon teulu yn gallu manteisio ar gyfrifiaduron ar rwydwaith telathrebu strategol Cymru-gyfan. Gyda'r meddalwedd a hyfforddiant priodol, byddant yn gallu gwella gofal cleifion drwy rannu gwybodaeth ag aelodau eraill y tîm gofal sylfaenol, e-bostio at gydweithwyr ym mhob sector a chael defnyddio cronfeydd gwybodaeth ar y rhyngrwyd ac ystod o wybodaeth ar HOWIS, mewnrwyd yr NHS.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Llunio Polisi Ysgolion Gwledig

**C7 Mick Bates:** Pa gamau a gymerwyd i lunio polisi ysgolion gwledig i Gymru? (OAQ13353)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Cyflwynais bapur ar ysgolion gwledig i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ddoe. Yn sgîl cael ei ystyried gan y Pwyllgor, yr wyf yn bwriadu ymgynghori â'r awdurdodau addysg lleol ac eraill ynglŷn â diwygio'r canllawiau.

### Papur Gwyn yr UE ar Bolisïau Ieuenctid Ewropeaidd

**C8 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch Papur Gwyn yr Undeb Ewropeaidd ar bolisïau ieuenctid Ewrop? (OAQ13357)

**Jane Davidson:** Mae Papur Gwyn yr Undeb Ewropeaidd ar ieuenctid yn cael ei ddrafftio gan y Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd. Disgwylir ei gyhoeddi ar 21 Tachwedd a'i gyflwyno yn Ghent ar 26 Tachwedd.

### Peryglon i Blant Ysgol yng Nghymru

**C9 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sylwadau'r Comisiynydd Plant dros Gymru ynghylch peryglon i blant ysgol yng Nghymru? (OAQ13520) [W]

**Jane Davidson:** Yr wyf yn rhoi pwys mawr ar addysgu plant mewn amgylchfyd diogel. Mater i'r awdurdodau lleol yn y lle cyntaf yw ystyried barn y comisiynydd. Yr wyf yn siŵr y byddant am ymchwilio yn llawn i'r materion a godwyd ganddo.

### Cyllid ar Gyfer Ysgol Plas Brondyffryn

**C10 Ann Jones:** Beth yw'r diweddaraf am hynt y trafodaethau rhwng ei swyddogion, Cyngor Sir Ddinbych a Chronfa Shirley ynghylch ei chyhoeddiad ar 23 Tachwedd 2000 ar gyllid ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn? (OAQ13359)

**Jane Davidson:** Mae fy swyddogion wedi bod yn trafod â Chyngor Sir Ddinbych yn rheolaidd ac yn disgwyl gweld cynllun terfynol ailddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn yn y ddwy wythnos nesaf. Cawsom ar ddeall bod y trafodaethau rhwng yr awdurdod a Chronfa Shirley wedi datblygu yn dda yn benodol ynghylch agweddau preswylio ar y cynigion.

*Tynnwyd Cwestiwn 11 (OAQ13363) yn ôl.*

### Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg

**C12 Cynog Dafis:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu darparu adnoddau digonol i weithredu argymhellion Bwrdd Addysg Gymraeg y Brifysgol parthed helaethu addysg uwch cyfrwng Cymraeg? (OAQ13557) [W]

**Jane Davidson:** Mae'r cynnig gan Fwrdd y Brifysgol ar gyfer Dysgu Drwy Gyfrwng y Gymraeg i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes fel rhan o'i adolygiad o bolisi addysg uwch.

Byddaf yn ystyried i ba raddau y dylid trefnu bod cronfeydd ychwanegol ar gael i'r sector yng ngoleuni canlyniad yr adolygiad o bolisi addysg uwch. Nid wyf am achub y blaen ar ystyriaethau'r Pwyllgor.

### Adeiladu Gwlad sy'n Dysgu

**C13 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch rôl y mudiad undebau llafur wrth adeiladu 'gwlad sy'n dysgu'? (OAQ13358)

**Jane Davidson:** Mae ein dogfen ymbaratoi, 'Y Wlad sy'n Dysgu', yn rhoi prospectws cynhwysfawr o weithgareddau i ymgymryd â hwy dros y blynyddoedd nesaf i roi dysgu yng Nghymru yn sail i lwyddiant economaidd a datblygu cymdeithasol. Ein barn yw y dylai dysgu barhau drwy'r bywyd gwaith; ac mae gan y mudiad undebau llafur ran bwysig iawn i'w chwarae wrth helpu i greu gweithlu gwybodus a medrus sydd â'r gallu i addasu. Fel yr ydym yn egluro yn y ddogfen, byddwn yn parhau i gefnogi gweithgareddau'r undebau llafur sy'n ymwneud â dysgu yn y gweithle; a byddwn hefyd yn gwerthuso cronfa ddysgu undebol Cymru i sicrhau bod y rhaglen yn parhau i fod yn effeithlon ac wedi'i thargedu at y prif flaenoriaethau.

## Gwendidau mewn Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg

**C14 Elin Jones:** Pa resymau y gall y Gweinidog eu rhoi dros wendid y ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg? (OAQ13358)

**Jane Davidson:** Cyrff ymreolus yw'r sefydliadau addysg uwch, a hwy yn unig sy'n gyfrifol am benderfynu pa gyrsiau y maent yn dewis eu rhedeg a sut i'w dysgu, eu harolygu a'u hasesu. Nid oes gan y Cynulliad bwerau i ymyrryd yn y penderfyniadau hyn.

Er hynny, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi neilltuo arian i fod yn sylfaen i ymagwedd strategol ar sail sefydliadol er mwyn hybu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cyngor hefyd yn cyfrannu at gostau uned datblygu addysg Gymraeg Prifysgol Cymru, sy'n cynnwys swyddog datblygu addysg Gymraeg llawn-amser.

Yr wyf wedi gofyn i'r cyngor gyflwyno ei gynigion i mi ynglŷn â'r ffordd orau o adeiladu ar y cymhellion hyn i ehangu darpariaeth Gymraeg ymhellach.

## Sefyllfa Ariannol Ysgolion yng Nghymru

**C15 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad pellach ynghylch sylwadau Prif Weinidog Cymru bod rhai ysgolion yng Nghymru yn rhy gyfoethog ac eraill yn rhy dlawd? (OAQ13523) [W]

**Jane Davidson:** Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu sut i ddyrannu ei wariant rhwng gwasanaethau, yn dibynnu ar anghenion ac amgylchiadau lleol; a sut i ddyrannu cyfrannau'r gyllideb rhwng ei ysgolion a gynhelir, yn unol â Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999 (fel y'u diwygiwyd). Rhaid iddo drin ei holl ysgolion yn deg.

Er hynny, mae lefelau cronfeydd ysgolion yn amrywio yn helaeth, ond gall fod rhesymau penodol paham y mae gan ysgol lefel uchel neu isel, megis cronni cronfeydd wrth gefn ar gyfer prosiect cyfalaf neu brosiect arall, neu brosiect adeiladu neu gynnal a chadw diweddar a dynnodd yn drwm ar gronfeydd yr ysgol. Bwriedir cyhoeddi adroddiad ystadegol ar lefel cronfeydd a ddelir gan ysgolion o fewn yr ychydig fisoedd nesaf.